**Branwen Rhys Dafydd**


**Oddi wrth:** Siân Lewis <helo@urdd.org>
**Anfonwyd:** Dydd Iau, 28 Gorffennaf 2022 13:48
**At:** Helo@urdd.org

**Pwnc:** Y diweddara gan yr Urdd | Latest from the Urdd




Annwyl Gyfaill,

Mae amser yn hedfan ac rydym bellach dros hanner ffordd drwy flwyddyn hynod o gyffrous, sef blwyddyn canmlwyddiant yr Urdd. Dyma gymryd y cyfle i'ch diweddaru ar ein gwaith dros y misoedd diwethaf ynghyd â rhai o'n cynlluniau ar gyfer ail hanner blwyddyn y 100:

**Torri dwy record byd**

Roedd Diwrnod Cariad@Urdd (25 Ionawr 2022) yn un i'w gofio i'r Urdd, wrth i ni nodi 100 mlynedd ers i Syr Ifan ab Owen Edwards sefydlu'r Mudiad. Dechreuodd yr hwyl gyda dros 95,000 yn ymuno gyda'n parti pen-blwydd rhithiol ar Zoom, cyn i'n cefnogwyr ein helpu i dorri dwy record byd drwy uwchlwytho'r fwyaf erioed o fideos ohonynt yn canu'r un gân, sef 'Hei Mistar Urdd' i Twitter a Facebook.



**Cynnig lloches i deuluoedd o Wcráin**

Yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth, mae'r Urdd wedi ymrwymo i gynnig llety am 5 mis i dros 60 teulu o Wcráin (222 o blant ac oedolion) sy'n chwilio am loches a diogelwch. Rydym yn hynod ddiolchgar i'n haelodau a'u hysgolion am eu dealltwriaeth a charedigrwydd – roedd gofyn iddynt ohirio eu cynlluniau i fynychu cyrsiau preswyl yn un o'n gwersylloedd am y tro wrth i ni gynnig lloches i'r ffoaduriaid.




## Eisteddfod a'r Celfyddydau

Wedi hir ymaros, croesawyd y nifer uchaf erioed (118,000) drwy giatiau Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych – ac i'r digwyddiad celfyddydol cenedlaethol mwyaf i ieuenctid Cymru ers cychwyn y pandemig. Diolch i gefnogaeth ychwanegol gwerth £520,000 gan Lywodraeth Cymru roedd mynediad i'r Eisteddfod am ddim eleni, a'n galluogodd i ddenu mwy o ymwelwyr a chystadleuwyr o bob cwr o'r wlad. Camodd miloedd o gystadleuwyr ar lwyfannau tri o bafiliynau'r Eisteddfod wrth i ni gynnig 'llwyfan i bawb' am y tro cyntaf, ac roedd Gŵyl Triban yn llwyddiant ysgubol dros yr ŵyl banc estynedig. Roedd hi wir yn Eisteddfod i bawb.




## Ail-lansio Cwmni Theatr Ieuenctid yr Urdd

Rydym yn hynod ddiolchgar i Weinidog y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles, am gyhoeddi cyllid newydd i ail-lansio Theatr Ieuenctid yr Urdd, sef Cwmni Theatr Ieuenctid Cymru, yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd eleni. Bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £1 miliwn dros gyfnod o bum mlynedd i gefnogi ail-lansiad y theatr. Fe'i sefydlwyd gyntaf yn y 1970au, a dros y degawdau mae wedi cynnig cyfleoedd unigryw a bythgofiadwy i rai miloedd o ieuenctid Cymru oedd â diddordeb ym myd y theatr.




## Cynhadledd #FelMerch

Ar drothwy Diwrnod Rhyngwladol y Merched, bu i ni gynnal y gynhadledd chwaraeon ieuenctid benywaidd gyntaf erioed yng Nghymru i ysbrydoli a chefnogi mwy o ferched rhwng 16 a 25 oed i ymwneud â chwaraeon. Roedd y gynhadledd yn orlawn, ac mae ein diolch yn fawr i Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, Dawn Bowden, am ei chefnogaeth barhaus i brosiect #FelMerch ac i Lywodraeth Cymru am ariannu'r digwyddiad.



## Gemau Stryd

Bu i ni gynnal Gemau Stryd gyntaf Cymru hynod o lwyddiannus ym Mae Caerdydd ar benwythnos 18+19 Mehefin, ble denwyd cannoedd i gystadlu a mwynhau sesiynau blasu pob math o chwaraeon Olympaidd newydd, megis BMX a sglefr fyrddio. Diolch unwaith eto i Dawn Bowden AS am bob cefnogaeth, i'n prif noddwyr Llywodraeth Cymru a Ogi, ynghyd â'n holl bartneriaid, gan gynnwys Chwaraeon Cymru a Chyngor Caerdydd.



## Gwersylloedd

Byddwn yn estyn croeso i blant a phobl ifanc yn eu cannoedd i Wersylloedd Haf yr Urdd, gan gynnwys 200 o deuluoedd incwm isel drwy ein cynllun 'Cyfle i Bawb'. Yn dilyn buddsoddiad o £10M yng Ngwersylloedd yr Urdd, edrychwn ymlaen at ddatgelu datblygiadau Calon y Gwersyll yn Llangrannog ym mis Medi, cyn agoriad y Gwersyll amgylcheddol cyntaf o'i fath yng Nghymru ym Mhentre Ifan, Sir Benfro a Chanolfan Ddŵr newydd Gwersyll Glan-llyn.



**Rhyngwladol**

Mae ein partneriaethau a phrosiectau rhyngwladol yn parhau i fynd o nerth i nerth. Dros y Pasg, teithiodd Côr yr Urdd allan i berfformio yn Alabama, UD gan barhau partneriaeth ar draws yr Iwerydd gyda dinas Birmingham Alabama. Yn ogystal, mae criw o aelodau'r Urdd newydd ddychwelyd o'r Iwerddon ar ôl bod yn cydweithio ar drydydd cynhyrchiad Cymraeg/Gwyddeleg gyda phrosiect ieuenctid TG Lurgan.



**Neges Heddwch ac Ewyllys Da 2022**

Lansiwyd Neges Heddwch ein canmlwyddiant, 'Yr Argyfwng Hinsawdd' ar 18 Mai yng Nghanolfan Heddwch Nobel yn Oslo, Norwy, mewn digwyddiad arbennig yng nghwmni Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford ynghyd â'r myfyrwyr o Brifysgol Aberystwyth a helpodd ei llunio. Cyrhaeddodd y Neges pedwar ban byd, o Beriw i Zimbabwe, Fietnam i Seland Newydd a Moldova, ac roedd ar gael mewn 101 o ieithoedd (mwy nag erioed o'r blaen), gan gynnwys Iaith Arwyddo Prydain (BSL).




**Gwobr Arbennig y Prif Weinidog**

Dyfarnwyd Gwobr Arbennig y Prif Weinidog i'r Urdd yn seremoni wobrwyo Gwobrau Dewi Sant, i gydnabod popeth mae'r mudiad wedi'i gyflawni mewn canrif o wasanaethu pobl ifanc, am gynnal y Gymraeg yn iaith fyw ac, yn fwyaf diweddar, am fod yn esiampl o Genedl Noddfa drwy gynnig cymorth a diogelwch i ffoaduriaid o Afghanistan ac Wcráin.

Diolch unwaith eto i'n haelodau, gwirfoddolwyr a phartneriaid am eich holl gefnogaeth.
Cofion gorau,
Siân

Dear Friend,

Time is flying by, and we are now more than halfway through what continues to be an extremely exciting year for us here at the Urdd as we celebrate our 100th anniversary. I'd like to take this opportunity to update you on our work over the past few months and as we look ahead at the second half of the Urdd's centenary year:

**Guinness World Record holders**

Cariad@Urdd Day (25 January 2022) was one for the history books, as we celebrated 100 years since Sir Ifan ab Owen Edwards established the Urdd. The fun started with over 95,000 joining our virtual birthday party on Zoom, before our supporters helped us break two Guinness World Records by uploading the most videos of people singing the same song ('Hei Mistar Urdd') to Twitter and Facebook.



**Offering refuge to families from Ukraine**

Following discussions with the Welsh Government in March, we have been offering short-term accommodation for 5 months to over 60 Ukrainian families (222 children and adults) seeking refuge and safety. We are extremely grateful for the support and kindness shown by the Urdd's members and schools, as they have had to postpone their visit to one of our residential centres for the time being whilst we offer refuge.




**Urdd Eisteddfod**

We welcomed a record-breaking 118,000 through the gates of the long-awaited 2022 Urdd Eisteddfod. Access to the festival in Denbighshire was free this year thanks to extra support of £520,000 from the Welsh Government, which helped attract more visitors and competitors from all parts of Wales. Thousands of competitors had the opportunity to perform on stage in one of the three pavilions as we offered ‘a stage for everyone’ for the very first time, and Triban Festival was a major success over the extended bank holiday. It really was a festival for all.




**Re-launch of National Youth Theatre**

We are extremely grateful to the Minister for Education and Welsh Language, Jeremy Miles, for announcing new funding to support the re-launch of the Urdd’s National Youth Theatre (Cwmni Theatr Ieuenctid yr Urdd) during the Urdd Eisteddfod. The Welsh Government will invest £1 million over a five-year period to support the re-launch of the theatre. First launched in the 1970s, it has offered unique and unforgettable opportunities for thousands of Wales’ youngsters interested in theatre over the decades.




**#FelMerch conference**

In the run up to International Women’s Day, we hosted Wales’ first-ever Female Youth Sports Conference to inspire and support young women between 16-25 to get involved in sports. The two-day conference was fully booked, and we are extremely grateful to Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip, Dawn Bowden for her continued support to the #FelMerch project and to the Welsh Government for sponsoring the event.



**Urban Games**

We also hosted Wales's first Youth Urban Games Festival in Cardiff Bay over the weekend of 18+19 June, where hundreds registered to compete and enjoy all kinds of new Olympic sports such as BMX, skateboarding and breaking. Thank you once again to Dawn Bowden MS for the support, and to the Welsh Government and Ogi as main sponsors, and partners including Sport Wales and Cardiff Council.



**Residential Centres**

Over the summer holidays we will be welcoming hundreds of children and young people to our Residential Centres' Summer Camps, including 200 from low-income families through our 'Fund for All' scheme. With £10M of investment in the capital works at our Centres we look forward to revealing the developments at Llangrannog in September, the transformation of Pentre Ifan into the Urdd's first Environmental Residential Centre as well as Glan-llyn's new Water Centre.



**International projects**

Our international partnerships and projects continue to go from strength to strength. Over Easter, Côr yr Urdd (the Urdd's choir) travelled to Alabama, USA to perform in a series of concerts, continuing our trans-Atlantic partnership with the city of Birmingham, Alabama. Urdd members have also just returned from a long weekend in Ireland, to develop another joint project with youth project TG Lurgan.



## Peace and Goodwill Message

Our centenary Peace and Goodwill Message was launched on 18 May in a dedicated event at the Nobel Peace Center in Oslo, Norway in the company of the First Minister of Wales, Mark Drakeford along with the Aberystwyth University students who helped write the message. It was shared in all corners of the world, from Peru to Zimbabwe, Vietnam to New Zealand and Moldova and was available in 101 languages, including British Sign Language.




## The First Minister's Special Award

The Urdd was awarded the First Minister's Special Award in the St David's Awards ceremony for everything the organisation has achieved in a century of serving young people, sustaining Welsh as a living language, and for exemplifying the Nation of Sanctuary approach by providing sanctuary, support and safety to people fleeing Afghanistan and Ukraine.

Thanks again to our members, volunteers, and partners for all your support.
Best wishes,
Siân

Urdd 100 1922 - 2022

Hwyl am y tro!

helo@urdd.org
urdd.cymru

---

**Ein cyfeiriad yw | *Find us at***

Urdd Gobaith Cymru, Gwersyll Yr Urdd Glan-llyn
Llanuwchllyn, Bala, Cymru LL23 7ST

Cyfrinachedd | Privacy

Hawlfraint © 2020 URDD GOBAITH CYMRU